



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2024 Rhif 971 (Cy. 165)

2024 No. 971 (W. 165)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

Gorchymyn Clefydau Egsotig
(Cymhwyso a Diwygio
Deddfiadau) (Cymru) 2024

The Exotic Disease (Application
and Amendment of Enactments)
(Wales) Order 2024

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

This Order applies in relation to Wales only.

Mae Erthygl 2 yn estyn y diffiniad o "clefyd" yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i gynnwys y tafod glas, enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy, clwy Affricanaidd y moch a chlefyd gwaedlifol episootig.

Article 2 extends the definition of "disease" in the Animal Health Act 1981 to include bluetongue, transmissible spongiform encephalopathy, African swine fever and epizootic haemorrhagic disease.

Mae Erthygl 3 yn diwygio Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/399 (Cy. 56)) i aillfwnosod darpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgan bod ardal yn ardal heintiedig. Mae'n darparu i'r Gorchymyn gael ei orfodi gan yr awdurdod lleol ac eithrio lle nodir fel arall neu pan fo Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod y Gorchymyn i'w orfodi gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu achosion penodol.

Article 3 amends the Movement of Animals (Restrictions) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/399 (W.56)) to reinsert a provision allowing the Welsh Ministers to declare an area to be an infected area. It provides for the Order to be enforced by the local authority except where otherwise stated or where the Welsh Ministers direct that the Order is to be enforced by the Welsh Ministers in relation to cases of a particular description or particular cases.

Mae erthygl 4 yn diwygio Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1090 (Cy. 116)) i ychwanegu ac egluro rhai diffiniadau penodol; caniatáu diwygio, atal dros dro neu ddirymu awdurdodiadau, trwyddedau, hysbysiadau neu ddynodiadau o dan y Rheoliadau hyn heb rybudd; darparu bod safleoedd sy'n pontio parth dan gyfyngiadau a pharth rheoli dros dro i'w trin fel rhai sydd o fewn parth rheoli dros dro yn gyfan gwbl; estyn y gwaharddiad ar symud anifeiliaid mewn parth rheoli i gynnwys gwahardd symud cynhyrchion cenedlol yn

Article 4 amends the Bluetongue (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/1090 (W.116)) to add and clarify certain definitions; to permit amendment, suspension or revocation of authorisations, licences, notices or designations under these Regulations without notice; to provide for premises which straddle a restricted zone and a temporary control zone to be treated as being entirely within a temporary control zone; to extend the prohibition on the movement of animals in a control zone to include prohibiting the movement of germinal products in that zone except in

y parth hwnnw ac eithrio yn unol â thrwydded; sefydlu mesurau rheoli clefyd pellach mewn achos o amau neu gadarnhau'r tafod glas, gan gynnwys pŵer i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad sy'n gwahardd symud anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol i fangre neu o fangre lle mae'r tafod glas wedi ei amau neu ei gadarnhau, ac eithrio yn unol â thrwydded (y caniateir iddi fod yn ddarostyngedig i amodau); darparu pŵer i ddatgan parth dan gyfyngiadau lle cadarnheir y tafod glas ond nad yw'n cylchredeg; darparu pŵer i ddatgan parth atal y tafod glas fel mesur rhagofalus pan fo angen i leihau'r risg o ymlediad feirws y tafod glas i unrhyw ran o Gymru, a darparu pŵer i ddynodi mangre at ddiben casglu, prosesu, trin neu storio cynhyrchion cenhedlol.

Mae erthygl 5 yn diwygio Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007 (O.S. 2007/3010 (Cy. 261) drwy ddileu cyfeiriad at ddarpariaeth sy'n cael ei dirymu.

Mae erthygl 6 yn dirymu Gorchymyn y Tafod Glas (Rhif 2) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3309 (Cy. 294)) i'r graddau nas dirymwyd yn flaenorol gan Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1090 (Cy. 116)), â'r unig ddarpariaeth sy'n weddill ohono yn cael ei chyfuno yn y Rheoliadau hynny gan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

accordance with a licence; to establish further disease control measures in the event of suspicion or confirmation of bluetongue, including power for a veterinary inspector to serve a notice prohibiting the movement of animals or germinal products onto or from premises where bluetongue is suspected or confirmed, except in accordance with a licence (which may be subject to conditions); to provide a power to declare a restricted zone where bluetongue is confirmed but not circulating; to provide a power to declare a bluetongue prevention zone as a precautionary measure where necessary to reduce the risk of an incursion of bluetongue virus into any part of Wales, and to provide a power to designate premises for the purpose of collecting, processing, handling or storing germinal products.

Article 5 amends the Bluetongue (Wales) (Compensation) Order 2007 (S.I. 2007/3010 (W.261)) by removing a reference to a provision which is revoked.

Article 6 revokes the Bluetongue (No. 2) (Wales) Order 2007 (S.I. 2007/3309 (W. 294)) so far as not previously revoked by the Bluetongue (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/1090 (W.116)), its sole remaining provision being consolidated into those Regulations by article 4 of this Order.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2024 Rhif 971 (Cy. 165)

2024 No. 971 (W. 165)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Clefydau Egsotig
(Cymhwyso a Diwygio
Deddfiadau) (Cymru) 2024**

**The Exotic Disease (Application
and Amendment of Enactments)
(Wales) Order 2024**

Gwnaed 19 Medi 2024
Yn dod i rym 23 Medi 2024

Made 19 September 2024
Coming into force 23 September 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 8(1)(1), 15(4), 17(1), 23(b) ac (c), 25, 32(2), 35(1), 83(2) ac 88(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 1, 8(1)(1), 15(4), 17(1), 23(b) and (c), 25, 32(2), 35(1), 83(2), and 88(2) of the Animal Health Act 1981(2), make the following Order.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Egsotig (Cymhwyso a Diwygio Deddfiadau) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Medi 2024.

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Exotic Disease (Application and Amendment of Enactments) (Wales) Order 2024.

(2) This Order comes into force on 23 September 2024.

Estyn y diffiniad o "clefyd"

2. At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, fel y bo'n gymwys o ran Cymru, estynnir y diffiniad o "disease" yn adran 88(1) o'r Ddeddf honno i gynnwys—

- (a) y tafod glas;
- (b) enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy;

Extension of the definition of "disease"

2. For the purposes of the Animal Health Act 1981, as it applies in relation to Wales, the definition of "disease" in section 88(1) of that Act is extended to include—

- (a) bluetongue;
- (b) transmissible spongiform encephalopathy;

(1) Mae adran 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p. 22) wedi ei diwygio gan adran 34(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21).
(2) 1981 p. 22 ("Deddf 1981"). Mae swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044); ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(1) Section 8(1) of the Animal Health Act 1981 (c. 22) is amended by section 34(2) of the Agriculture Act 2020 (c. 21).
(2) 1981 c. 22 ("the 1981 Act"). Functions of "the Ministers" under the 1981 Act (as defined in section 86(1) of that Act) are exercisable by the Welsh Ministers (in relation to Wales) by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044); and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

- (c) clwy Affricanaidd y moch, a
- (d) clefyd gwaedlifol episootig.

- (c) African swine fever, and
- (d) epizootic haemorrhagic disease.

Diwygio Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003

3.—(1) Mae Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 5 (datgan parth rheolaeth dros dro) mewnosoder—

“Datgan ardal heintiedig

5A.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod clefyd yn bodoli neu wedi bodoli yn yr 56 o ddiwrnodau blaenorol ar unrhyw safle, cânt ddatgan bod ardal yn ardal heintiedig.

(2) Rhaid i ardal heintiedig a ddatgenir o dan baragraff (1) fod o'r maint y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er mwyn atal lledaeniad clefydau.

(3) Rhaid i ddatganiad o dan baragraff (1) bennu un neu ragor o'r canlynol—

- (a) y clefyd y mae'r ardal heintiedig yn cael ei datgan mewn perthynas ag ef;
- (b) y rhywogaethau o anifeiliaid y mae'r datganiad yn ymwneud â hwy;
- (c) y safleoedd o fewn yr ardal heintiedig y mae'r datganiad yn ymwneud â hwy;
- (d) y mesurau bioddiogelwch y mae rhaid eu cymryd ar safleoedd o fewn yr ardal heintiedig; neu
- (e) unrhyw fesurau eraill sydd i'w cymhwyso o fewn yr ardal heintiedig, neu o fewn unrhyw ran o'r ardal honno, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal lledaeniad clefydau.

(4) Ni chaiff neb symud anifail sy'n perthyn i rywogaeth y mae datganiad o dan baragraff (1) yn ymwneud â hi, i ardal nac o ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig o dan y Gorchymyn hwn, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

Amendments to the Movement of Animals (Restrictions) (Wales) Order 2003

3.—(1) The Movement of Animals (Restrictions) (Wales) Order 2003(1) is amended as follows.

(2) After article 5 (declaration of a temporary control area) insert—

“Declaration of an infected area

5A.—(1) If the Welsh Ministers consider that disease exists or has existed in the preceding 56 days on any premises, they may declare an area to be an infected area.

(2) An infected area declared under paragraph (1) must be of such size as the Welsh Ministers consider necessary in order to prevent the spread of disease.

(3) A declaration under paragraph (1) must specify one or more of the following—

- (a) the disease in respect of which the infected area is being declared;
- (b) the species of animals to which the declaration relates;
- (c) the premises within the infected area to which the declaration relates;
- (d) the biosecurity measures which must be taken on premises within the infected area; or
- (e) such other measures that are to apply in the infected area, or in any part of that area, as the Welsh Ministers consider necessary in order to prevent the spread of disease.

(4) No person shall move an animal belonging to a species to which a declaration under paragraph (1) relates, into or out of an area declared to be an infected area under this Order, except under the authority of a licence issued by a veterinary inspector or an inspector under the direction of a veterinary inspector.

(1) O.S. 2003/399 (Cy. 56); mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan O.S. 2009/2940 (Cy. 257).

(1) S.I. 2003/399 (W.56); relevant amendments are made by S.I. 2009/2940 (W.257).

(5) Ni chaiff neb symud anifail i safle nac o safle o fewn ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig o dan y Gorchymyn hwn, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

(6) At ddibenion yr erthygl hon, bernir bod unrhyw safle sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i ardal heintiedig o fewn yr ardal honno yn gyfan gwbl.

(7) Pan fo anifail yn teithio drwy ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig o dan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r anifail gael ei symud mewn cerbyd ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael a hynny heb gael ei ddadlwytho.

(8) Caniateir i ddatganiad a wneir o dan y Gorchymyn hwn gael ei ddiwygio, ei atal dros dro neu ei ddirymu gan Weinidogion Cymru ar unrhyw adeg.

(9) Rhaid i ddatganiad a wneir o dan y Gorchymyn hwn ac unrhyw achos o ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu'r datganiad fod yn ysgrifenedig.”

(3) Yn lle erthygl 12 (yr awdurdod lleol i orfodi'r gorchymyn) rhodder—

“Gorfodi

12.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, ac eithrio pan ddarperir yn benodol fel arall, gael eu gweithredu a'u gorfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, mewn achosion o ddisgrifiad penodol neu mewn achos penodol, y caiff Gweinidogion Cymru gyflawni'r cyfrifoldeb am orfodi'r Gorchymyn hwn.”

Diwygio Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008

4.—(1) Mae Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

- (a) yn y diffiniad o “anifail”, yn lle'r geiriau “(ac at ddibenion” hyd at y diwedd rhodder “neu gamelid;”;

(5) No person shall move an animal to or from premises within an area declared to be an infected area under this Order, except under the authority of a licence issued by a veterinary inspector or an inspector acting under the direction of a veterinary inspector.

(6) For the purposes of this article, any premises which are partly inside and partly outside an infected area are deemed to be wholly within that area.

(7) Where an animal is transiting an area declared to be an infected area under this Order, the animal must be moved in a vehicle and by the shortest available route without being unloaded.

(8) A declaration made under this Order may be amended, suspended or revoked by the Welsh Ministers at any time.

(9) A declaration made under this Order and any amendment, suspension or revocation of the declaration must be in writing.”

(3) For article 12 (local authority to enforce order) substitute—

“Enforcement

12.—(1) Subject to paragraph (2), the provisions of this Order shall, except where otherwise expressly provided, be executed and enforced by the local authority.

(2) The Welsh Ministers may direct, in cases of a particular description or in a particular case, that responsibility for enforcing this Order may be discharged by the Welsh Ministers.”

Amendments to the Bluetongue (Wales) Regulations 2008

4.—(1) The Bluetongue (Wales) Regulations 2008(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

- (a) in the definition of “animal”, for the words “(and for the purposes” to the end substitute “or a camelid;”;

(1) O.S. 2008/1090 (Cy. 116); mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan O.S. 2012/2403 (Cy. 257).

(1) S.I. 2008/1090 (W.116); relevant amendments are made by S.I. 2012/2403 (W.257).

(b) ar ôl y diffiniad o “brechlynnau byw a wanhawyd”, mewnosoder—

“ystyr “carcas” (“*carcase*”) yw carcass anifail;”;

(c) ar ôl y diffiniad o “parth rheoli”, mewnosoder—

“ystyr “Prif Swyddog Milfeddygol” (“*Chief Veterinary Officer*”) yw Prif Swyddog Milfeddygol Cymru.”;

(d) ar ôl y diffiniad o “carcas”, mewnosoder—

“ystyr “cynnyrch cenhedlol” (“*germinal product*”) yw embryo, ofwm neu semen anifail;”;

(e) yn y diffiniad o “mangre”, yn lle “fan neu le” rhodder “dir, adeilad neu fan neu le arall”.

(3) Yn rheoliad 2(2) (dehongli), hepgorer “drwy hysbysiad”.

(4) Yn rheoliad 7 (mangreoedd sy’n pontio parthau), ym mharagraff 4(c), yn lle “i’r parth dan gyfyngiadau” rhodder “i’r parth rheoli dros dro”.

(5) Yn lle rheoliad 9 (mangreoedd a amheuir neu fangreoedd heintiedig) rhodder—

“Mesurau mewn mangreoedd a amheuir neu fangreoedd heintiedig

9.—(1) Os amheuir neu os cadarnheir presenoldeb y tafod glas neu feirws y tafod glas mewn unrhyw fangre, caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy’n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i’r meddiannydd neu i geidwad unrhyw anifeiliaid yn y fangre honno, yn gwahardd symud anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol i’r fangre neu o’r fangre ac eithrio yn unol â thrwydded.

(2) Caiff hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1) osod y gofynion canlynol ar y meddiannydd neu’r ceidwad—

(a) llunio stocrestr, a gynhelir yn ddyddiol, o’r holl anifeiliaid a chynhyrchion cenhedlol yn y fangre, gan gofnodi, ar gyfer pob rhywogaeth—

(i) cyfanswm nifer yr anifeiliaid;

(ii) cyfanswm nifer y cynhyrchion cenhedlol a’r mathau ohonynt;

(iii) nifer yr anifeiliaid neu’r cynhyrchion cenhedlol y mae’r tafod glas neu feirws y tafod glas yn effeithio arnynt neu yr amheuir bod y tafod glas neu feirws y tafod glas yn effeithio arnynt;

(b) after the definition of “animal”, insert—

““carcase” (“*carcas*”) means the carcass of an animal;”;

(c) after the definition of “carcase”, insert—

““Chief Veterinary Officer” (“*Prif Swyddog milfeddygol*”) means the Chief Veterinary Officer for Wales;”;

(d) after the definition of “control zone” insert—

““germinal product” (“*cynnyrch cenhedlol*”) means the embryo, ovum, or semen of an animal;”;

(e) in the definition of “premises” for “place” substitute “any land, building or other place”.

(3) In regulation 2(2) (interpretation), omit “by notice”.

(4) In regulation 7 (premises straddling zones), in paragraph 4(c), for “the restricted zone” substitute “the temporary control zone”.

(5) For regulation 9 (suspected or infected premises) substitute—

“Measures at suspected or infected premises

9.—(1) If the presence of bluetongue or bluetongue virus is suspected or confirmed at any premises, a veterinary inspector or inspector acting under the instructions of a veterinary inspector may serve a notice on the occupier or keeper of any animals on those premises, prohibiting the movement of animals or germinal products to or from the premises except in accordance with a licence.

(2) A notice served under paragraph (1) may impose the following requirements on the occupier or keeper—

(a) to make and maintain daily, an inventory of all animals and germinal products on the premises, recording, for each species—

(i) the total number of animals;

(ii) the total number and type of germinal products;

(iii) the number of animals or germinal products affected or suspected of being affected with bluetongue or bluetongue virus;

- (iv) nifer yr anifeiliaid sy'n marw neu nifer y cynhyrchion cenhedlol a ddiristrir;
- (v) nifer a chyrchfan unrhyw anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol a symudir o'r fangre;
- (b) cadw cofnod o'r stocrestr am ddwy flynedd o leiaf o'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad;
- (c) sicrhau y cedwir pob anifail dan do, neu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol;
- (d) gweithredu'r mesurau rheoli gwybed a bennir yn yr hysbysiad mewn cysylltiad â phob anifail yn y fangre.
- (3) Rhaid i drwydded a roddir o dan baragraff (1) osod yr amodau hynny ar symud anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i atal lledaeniad feirws y tafod glas.
- (4) Caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol—
- (a) cyflwyno hysbysiad o dan baragraff (1) i feddiannydd mangre neu geidwad anifeiliaid yn y fangre honno os yw'r arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol yn amau bod anifeiliaid yn y fangre wedi dod i gysylltiad â feirws y tafod glas;
- (b) cynnwys y mesurau hynny ym mharagraff (2) yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i atal lledaeniad feirws y tafod glas.”
- (6) Yn rheoliad 10 (parthau rheoli dros dro)—
- (a) ym mharagraff (4)—
- (i) ar ôl “anifail”, mewnosoder “na chynnyrch cenhedlol”;
- (ii) ar ôl “arolygydd milfeddygol”, mewnosoder “neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol”;
- (b) hepgorer paragraff (5).
- (iv) the number of animals which die or germinal products which are destroyed;
- (v) the number and destination of any animals or germinal products which are moved from the premises;
- (b) to keep a record of the inventory for a minimum period of two years from the date on which the notice is served;
- (c) to ensure all animals are kept indoors, or in accordance with the instructions of a veterinary inspector or inspector acting under the instructions of a veterinary inspector;
- (d) to subject animals on the premises to the midge control measures specified in the notice.
- (3) A licence granted under paragraph (1) must impose such conditions on the movement of animals or germinal products as a veterinary inspector or inspector acting under the instructions of a veterinary inspector considers necessary to prevent the spread of bluetongue virus.
- (4) A veterinary inspector or inspector acting under the instructions of a veterinary inspector may—
- (a) serve a notice under paragraph (1) on the occupier of premises or keeper of animals on those premises if the veterinary inspector or inspector acting under the instructions of a veterinary inspector suspects that animals on the premises have been exposed to bluetongue virus;
- (b) include such of the measures in paragraph (2) as are considered necessary to prevent the spread of bluetongue virus.”
- (6) In regulation 10 (temporary control zones)—
- (a) in paragraph (4)—
- (i) after “animal”, insert “or germinal product”;
- (ii) after “veterinary inspector”, insert “or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the instructions of a veterinary inspector”;
- (b) omit paragraph (5).

(7) Yn rheoliad 11 (cadarnhau bod y tafod glas mewn mangre)—

- (a) daw'r testun presennol yn baragraff (1);
- (b) hepgorer paragraff (b) a'r "a" o'i flaen;
- (c) ym mharagraff (1) (fel y'i hailrifir), yn lle "iddo" rhodder "i'r arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol";
- (d) ar ôl paragraff (1) (fel y'i hailrifir), mewnosoder—

"(2) Caiff hysbysiad o dan baragraff (1) hysbysu'r meddiannydd (er gwaethaf rheoliad 8) nad oes angen hysbysu arolygydd milfeddygol am unrhyw achosion pellach a amheuir o'r tafod glas yn y fangre."

(8) Yn rheoliad 12 (y mesurau pan fo presenoldeb feirws y tafod glas wedi ei gadarnhau)—

- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn lle "rhaid i Weinidogion Cymru" rhodder "caiff Gweinidogion Cymru";
 - (ii) hepgorer "ar sail epidemiolegol, daearyddol, ecolegol neu feteorolegol,";
- (b) ym mharagraff (3)—
 - (i) ar ôl "anifail" mewnosoder "na chynnyrch cenhedlol";
 - (ii) ar ôl "na'i symud ohoni" mewnosoder "ac eithrio yn unol â thrwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol".

(9) Ar ôl rheoliad 12 (y mesurau pan fo presenoldeb feirws y tafod glas wedi ei gadarnhau) mewnosoder—

"Y pŵer i gigydda anifeiliaid

12A.—(1) Mae adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (sy'n ymwneud â chigydda a digolledu) yn gymwys i'r tafod glas."

(10) Yn rheoliad 13 (cyfyngiadau mewn parthau diogelu a pharthau goruchwyliaeth)—

- (a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "rhaid i Weinidogion Cymru" rhodder "caiff Gweinidogion Cymru";
- (b) ym mharagraff (2)—
 - (i) yn lle "semen, ofwm nac embryo" rhodder "na chynnyrch cenhedlol";

(7) In regulation 11 (confirmation of bluetongue on premises)—

- (a) the existing text becomes paragraph (1);
- (b) omit paragraph (b) and the "and" before it;
- (c) in paragraph (1) (as renumbered), for "the veterinary inspector" substitute "a veterinary inspector or inspector acting under the instructions of a veterinary inspector";
- (d) after paragraph (1) (as renumbered), insert—

"(2) A notice under paragraph (1) may notify the occupier that (notwithstanding regulation 8) it is unnecessary to notify any further suspected cases of bluetongue on the premises to a veterinary inspector."

(8) In regulation 12 (measures on confirmation of the bluetongue virus)—

- (a) in paragraph (1)—
 - (i) omit "on epidemiological, geographical, ecological or meteorological grounds";
 - (ii) for "must" substitute "may";
- (b) in paragraph (3)—
 - (i) after "animal" insert "or germinal product";
 - (ii) after "zone" insert "except in accordance with a licence issued by a veterinary inspector or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the instructions of a veterinary inspector".

(9) After regulation 12 (measures on confirmation of the bluetongue virus) insert—

"Power to slaughter animals

12A.—(1) Section 32 of the Animal Health Act 1981 (which relates to slaughter and compensation) applies to bluetongue."

(10) In regulation 13 (restrictions in protection and surveillance zones)—

- (a) in paragraph (1)(a), for "must" substitute "may";
- (b) in paragraph (2)—
 - (i) for "semen, ovum or embryo" substitute "or germinal product";

- (ii) yn lle “arolygydd” rhodder “arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy’n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol”;
- (c) ym mharagraff (3)—
 - (i) ar ôl “anifail” mewnosoder “na chynnyrch cenhedlol”;
 - (ii) ar ôl “gwarchod” mewnosoder “neu barth gwyliadwriaeth”;
 - (iii) yn lle “arolygydd” rhodder “arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy’n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol”;
- (d) ar ôl paragraff (3), mewnosoder—

“(3A) Caiff datganiad o dan baragraff (1) gynnwys gwaharddiad ar symud anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol i fangre neu o fangre o fewn parth, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy’n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.”;
- (e) hepgorer paragraff (4).
- (11) Ar ôl rheoliad 13, mewnosoder—

“Y mesurau pan fo feirws y tafod glas yn bresennol ond nad yw’n cylchredeg

13A.—(1) Os cadarnheir feirws y tafod glas mewn anifail neu gynnyrch cenhedlol ac os yw’r Prif Swyddog Milfeddygol yn ystyried—

- (a) nad yw’r feirws yn cylchredeg; a
- (b) bod budd rheoli clefydau o wneud hynny,

caiff Gweinidogion Cymru ddatgan bod ardal briodol yn barth dan gyfyngiadau.

(2) Rhaid i barth dan gyfyngiadau a ddatgenir o dan y rheoliad hwn—

- (a) canolbwyntio ar leoliad yr anifail neu’r cynnyrch cenhedlol y cadarnheir feirws y tafod glas ynddo; a
- (b) bod o faint a ystyrir yn angenrheidiol gan y Prif Swyddog Meddygol er mwyn atal lledaeniad feirws y tafod glas.

(3) Ni chaiff neb symud anifail na chynnyrch cenhedlol o barth dan gyfyngiadau a ddatgenir o dan y rheoliad hwn ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy’n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

- (ii) for “an inspector” substitute “a veterinary inspector or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the direction of a veterinary inspector”;
- (c) in paragraph (3)—
 - (i) after “animal” insert “or germinal product”;
 - (ii) after “protection” insert “or surveillance”;
 - (iii) for “an inspector” substitute “a veterinary inspector or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the direction of a veterinary inspector”;
- (d) after paragraph (3), insert—

“(3A) A declaration under paragraph (1) may include a prohibition on the movement of animals or germinal products onto or from premises within a zone, except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the direction of a veterinary inspector.”;
- (e) omit paragraph (4).
- (11) After regulation 13, insert—

“Measures where bluetongue virus is present but not circulating

13A.—(1) If bluetongue virus is confirmed in an animal or germinal product and if the Chief Veterinary Officer considers—

- (a) that the virus is not circulating; and
- (b) there is a disease control benefit from doing so,

the Welsh Ministers may declare an appropriate area to be a restricted zone.

(2) A restricted zone declared under this regulation must—

- (a) be centred on the location of the animal or germinal product in which bluetongue virus is confirmed; and
- (b) be of such size as is considered necessary by the Chief Veterinary Officer for the prevention of spread of bluetongue virus.

(3) No person may move an animal or germinal product out of a restricted zone declared under this regulation except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector or an inspector acting under the direction of a veterinary inspector.

Mesurau i leihau'r risg bod feirws y tafod glas yn treiddio neu'n lledaenu

13B.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl cynnal asesiad risg, yn ystyried bod camau o'r fath yn angenrheidiol i leihau'r risg bod feirws y tafod glas yn treiddio i unrhyw ran o Gymru neu fod feirws y tafod glas yn lledaenu i anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol o unrhyw ffynhonnell, caiff Gweinidogion Cymru—

- (a) datgan parth atal y tafod glas ledled Cymru neu mewn unrhyw ran ohoni; a
- (b) cyflwyno, neu ei gwneud yn ofynnol i arolygydd gyflwyno, hysbysiad i feddiannydd mangre neu geidwad anifeiliaid mewn mangre lle cedwir anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Caiff hysbysiad neu ddatganiad o dan baragraff (1)—

- (a) gosod y mesurau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i leihau'r risg o ymlediad feirws y tafod glas i unrhyw ran o Gymru neu ledaeniad feirws y tafod glas;
- (b) yn ddarostyngedig i baragraff (3), gyfyngu ar symud anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol—
 - (i) o fewn parth atal y tafod glas; neu
 - (ii) o fangre o fewn y parth atal y tafod glas i ardal nad yw yn y parth atal y tafod glas.

(3) Ni chaiff neb symud anifeiliaid na chynhyrchion cenhedlol o fewn nac o barth atal y tafod glas ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(4) Ni chaiff neb symud anifeiliaid o fewn nac o barth atal y tafod glas os yw'r anifail yn dangos arwyddion clinigol o'r tafod glas ar neu cyn y diwrnod cludo.”

(12) Yn rheoliad 14 (lladd-dai)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “a gludir allan o barth dan gyfyngiadau” rhodder “a symudir yn unol â'r Rheoliadau hyn”;

Measures to reduce the risk of incursion or spread of bluetongue virus

13B.—(1) If, after carrying out a risk assessment, the Welsh Ministers consider such action necessary to reduce the risk of incursion of bluetongue virus into any part of Wales or spread of bluetongue virus to animals or germinal products from any source, the Welsh Ministers may—

- (a) declare a bluetongue prevention zone in all or any part of Wales; and
- (b) serve, or require an inspector to serve, a notice on the occupier of premises or keeper of animals at premises where animals or germinal products specified in the notice are kept.

(2) A notice or declaration under paragraph (1) may—

- (a) impose such measures as the Welsh Ministers consider necessary to reduce the risk of incursion of bluetongue virus into any part of Wales or spread of bluetongue virus;
- (b) subject to paragraph (3), restrict the movement of animals or germinal products—
 - (i) within a bluetongue prevention zone; or
 - (ii) from premises within the bluetongue prevention zone to an area which is not in the bluetongue prevention zone.

(3) No person may move animals or germinal products within or from a bluetongue prevention zone except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the direction of a veterinary inspector.

(4) No person may move animals within or from a bluetongue prevention zone if the animal shows clinical signs of bluetongue on or before the day of transport.”

(12) In regulation 14 (slaughterhouses)—

- (a) in paragraph (1), for “transported out of a restricted zone” substitute “moved in accordance with these Regulations”;

(b) hepgorer paragraff (3).

(13) Ar ôl rheoliad 14, mewnosoder—

“Mangreodded dynodedig eraill

14A.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddynodi unrhyw fangre at ddiben casglu, prosesu, trin neu storio cynhyrchion cenhedlol.

(2) Caiff dynodiad o dan y rheoliad hwn gynnwys unrhyw fesurau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i atal lledaeniad feirws y tafod glas.”

(14) Yn lle rheoliad 15 (symud anifeiliaid wedyn) rhodder—

“Symud anifeiliaid neu bethau eraill

15.—(1) Ar ôl symud anifail neu gynnyrch cenhedlol o fangre o fewn parth rheoli dros dro, parth gwarchod, parth gwyliadwriaeth, parth rheoli neu barth dan gyfyngiadau, caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad a gyflwynir i feddiannydd mangre y mae'r anifail neu'r cynnyrch cenhedlol wedi ei symud iddi—

- (a) gwahardd symud yr anifail neu'r cynnyrch cenhedlol hwnnw o'r fangre y symudwyd yr anifail neu'r cynnyrch cenhedlol iddi;
- (b) gwahardd symud unrhyw anifail neu gynnyrch cenhedlol arall i'r fangre neu oddi yno;
- (c) pennu'r gofynion hynny y mae arolygydd milfeddygol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal lledaeniad clefydau.

(2) Caniateir i symudiad a waherddir gan hysbysiad o dan baragraff (1) gael ei awdurdodi o dan drwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.”

(15) Yn rheoliad 19 (defnyddio brechlynnau)—

- (a) ym mharagraff (1) ar ôl “brechlynnau”, hepgorer “anweithredol neu frechlynnau byw a wanhawyd”;
- (b) ym mharagraff (2) ar ôl “gan frechlynnau”, hepgorer “anweithredol neu frechlynnau byw a wanhawyd”;

(b) omit paragraph (3).

(13) After regulation 14, insert—

“Other designated premises

14A.—(1) The Welsh Ministers may designate any premises for the purpose of collecting, processing, handling or storing germinal products.

(2) A designation under this regulation may contain such measures as the Welsh Ministers consider necessary to prevent the spread of bluetongue virus.”

(14) For regulation 15 (subsequent movement of animals) substitute—

“Movement of animals or other things

15.—(1) Following the movement of an animal or germinal product from premises within a temporary control zone, protection zone, surveillance zone, control zone or restricted zone, a veterinary inspector or inspector acting under the direction of a veterinary inspector may by notice served on the occupier of premises to which the animal or germinal product has been moved—

- (a) prohibit the movement of that animal or germinal product off the premises to which the animal or germinal product has been moved;
- (b) prohibit the movement of any other animal or germinal product on to or off such premises;
- (c) specify such requirements as are considered by a veterinary inspector to be necessary in order to prevent the spread of disease.

(2) A movement prohibited by a notice under paragraph (1) may be authorised under a licence issued by a veterinary inspector or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the direction of a veterinary inspector.”

(15) In regulation 19 (use of vaccines)—

- (a) in paragraph (1) after “of”, omit “inactivated or live attenuated”;
- (b) in paragraph (2) after “their animals”, omit “with inactivated or live attenuated”;

(c) ym mharagraff (3)—

- (i) ar ôl “arolygydd milfeddygol” mewnosoder “neu arolygydd neu swyddog i Weinidogion Cymru sy’n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol”;
- (ii) ar ôl “brechlynnau”, hepgorer “anweithredol neu frechlynnau byw a wanhawyd”.

(16) Yn rheoliad 20 (pwerau arolygwyr milfeddygol, swyddogion ac arolygwyr), yn y testun Saesneg, ym mharagraff (5)(a), yn lle “isolate of” rhodder “isolate or”.

Diwygio Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007

5.—(1) Mae Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (digolledu)—

- (a) ym mharagraff (1), hepgorer “fel y’i cymhwysir i’r tafod glas gan erthygl 13 o Orchymyn y Tafod Glas 2003”;
- (b) ym mharagraff (3), ar ôl “anifail sy’n cnoi cil” rhodder “neu gamelid”.

Dirymu

6. Mae Gorchymyn y Tafod Glas (Rhif 2) (Cymru) 2007(2) wedi ei ddirymu, i’r graddau nad yw wedi ei ddirymu’n flaenorol.

(c) in paragraph (3)—

- (i) after “veterinary inspector” insert “or by an inspector or officer of the Welsh Ministers acting under the direction of a veterinary inspector”;
- (ii) after “vaccination”, omit “with inactivated or live attenuated”.

(16) In regulation 20 (powers of veterinary inspectors, officers and inspectors), in paragraph (5)(a), for “isolate of” substitute “isolate or”.

Amendments to the Bluetongue (Wales) (Compensation) Order 2007

5.—(1) The Bluetongue (Wales) (Compensation) Order 2007(1) is amended as follows.

(2) In article 2 (compensation)—

- (a) in paragraph (1), omit “as applied to bluetongue by article 13 of the Bluetongue Order 2003”;
- (b) in paragraph (3), after “ruminating animal” insert “or camelid”.

Revocations

6. The Bluetongue (No. 2) (Wales) Order 2007(2) is revoked, so far as not previously revoked.

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o
Weinidogion Cymru
19 Medi 2024

©©Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffwyd Deddfau Senedd y Brenin.

(1) O.S. 2007/3010 (Cy. 261).
(2) O.S. 2007/3309 (Cy. 294), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2008/1090 (Cy. 116).

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for
Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh
Ministers
19 September 2024

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

(1) S.I. 2007/3010 (W.261).
(2) S.I. 2007/3309 (W. 294), as amended by S.I. 2008/1090 (W. 116).

£8.14

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/971>

ISBN 978-0-348-39608-9



9 780348 396089